

Cyfeiriadur Cludiant Cymunedol Ynys Môn



Hydref 2019

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Darparwr 1 – Royal Voluntary Service | 2 |
| Darparwr 2 – Cynllun Tro Da Benllech..... | 3 |
| Darparwr 3 – Barbara Bus Gwynedd a Môn | 4 |
| Darparwr 4 – Y Groes Goch | 5 |
| Darparwr 5 – Trafnidiaeth Gymunedol Môn | 6 |
| Darparwr 6 – Car Linc Môn | 7 |
| Darparwr 7 – Cyswllt â'r Henoed | 9 |
| Darparwr 8 – Bws Mini Canolfan Beaumaris..... | 10 |
| Cysylltiadau Defnyddiol Eraill..... | 12 |

Royal Voluntary Service



Prif Gyswllt:

Rhif Ffôn Prif Gyswllt: 01248 661915

Ebost: Ynysmongwyneddhub@royalvoluntaryservice.org.uk

Cyswllt Eilaidd:

Rhif Ffôn:

Ebost:

Dull cyfeirio a ffafriwyd: Ebost neu ffôn.

Oriau agored: 9yb – 4.30yh Dydd Llun i Ddydd Gwener.

Lleoliadau Gwasanaeth (trefi a phentrefi): Ynys Môn a Gwynedd gyfan.

Defnyddwyr cymwys (isafswm oedran, cadair olwyn, dementia ayyb.):

Rhaid bod dros 50 oed. Dim defnyddwyr cadair olwyn. Defnyddwyr yn byw a dementia i gael gwarchodwr ar y siwrne.

Mathau o gerbydau: Ceir gwirfoddolwyr. Uchafswm o 4 teithiwr mewn car.

Polisi Codi Tâl: Cost car o £4.50 am y 3 milltir gyntaf a 65c am bob milltir ddilynol.

Lleiafswm o rybudd sydd ei angen cyn y siwrne: 48 awr.

Siwrne noswaith a/neu benwythnos: Yn ddibynnol os yw gwirfoddolwr ar gael.

Gwasanaethau ychwanegol: Gall gwirfoddolwyr gadw cwmni a chynnig help llawr i ddefnyddwyr e.e. cymorth siopa, hebrwng i apwyntiadau. Gallwn gynnig gwasanaeth cyfarch a llogi cadeiriau olwyn yn Ysbyty Gwynedd. Gallwn hefyd gyfeirio at unrhyw wasanaeth arall o fudd i'r defnyddwyr a gynigwyd gan RVS neu unrhyw ddarparwr arall.

Unrhyw wybodaeth arall: Mwy na bodlon i gefnogi defnyddwyr cludiant eraill gydag unrhyw un o'r gwasanaethau uchod yn Ysbyty Gwynedd.

Mae'r RVS yn chwilio am wirfoddolwyr newydd.

Cynllun Tro Da Benllech

Prif Gyswllt: William Hadfield

Rhif Ffôn: 07918 993408

Ebost: bhadfield@hotmail.co.uk

Cyswllt Eilaidd: Mike Jones

Rhif Ffôn: 01248 852654

Ebost: N/A



Dull cyfeirio a ffafriwyd: Ffôn neu e-bost

Oriau agor swyddfa: 9yb – 5yh Dydd Llun i Ddydd Gwener.

Leoliadau gwasanaeth (trefi a phentrefi): Benllech, Moelfre, Llanbedrgoch, Brynteg, Marianglas, Pentraeth a Red Wharf Bay

Defnyddwyr cymwys (isafswm oed, cadair olwyn, dementia ayyb.): 60 mlwydd oed a drosodd, salwch neu anabledd (hir neu fyr dymor), dementia diagnosis cynnar (angen gwarchodwr). Methu cefnogi'r rheini mewn cadeiriau olwyn.

Math o gerbydau: Ceir gwirfoddolwyr (gall fod yn 2 neu 4/5 drws)

Polisi Codi Tâl : Isafswm o £2.00 hyd at 4 milltir yn 50c y filltir. Costau safonol i ysbyty Gwynedd, Llangefni, Caergybi, Llandudno ayyb.

Lleiafswm o rybudd sydd ei angen cyn y siwrne: cymaint â phosibl oherwydd gyrwyr gwirfoddol.

Siwrne noswaith a/neu benwythnos: Na.

Gwasanaethau ychwanegol: Apwyntiadau ysbyty, deintydd a'r medyg. Siopa, Banc/Swyddfa Bost. Ymweliadau cartref, darllen, llenwi ffurflenni, cerdded y ci (os oes gwirfoddolwr ar gael).

Unrhyw wybodaeth ychwanegol: Apwyntiadau argyfwng ysbyty ar Ddydd Sadwrn yn cael eu cysidro os oes gwirfoddolwyr ar gael.



Barbara Bus Gwynedd a Môn

Prif gyswllt: David Thomas, Cyd-gysylltydd

Rhif ffôn: 07484 223 696

Cyfeiriad e-bost: info@barbarabusgwynedd.com

Ail gyswllt: Andy Evans, Dirprwy Gysylltydd

Ail e-bost: ae.bbg@outlook.com

Dull gorau o gysylltu: Ebost, ffôn neu wefan barbarabusgwynedd.com

Oriau agor: 10am – 10pm saith diwrnod yr wythnos

Ardaloedd a wasanaethir: Ynys Môn yn gyfan ac arfordir Gogledd Cymru yn cynnwys Gwynedd gyfan. Mae ein canolfannau ym Malltraeth, Bodorgan a Treborth, Bangor)

Y rhai sy'n gymwys: Unrhyw ddefnyddiwr cadair olwyn nad yw'n gallu defnyddio car neu dacsî

Math o gerbyd: Cerbyd arbennig ar gyfer cadeiriau olwyn (Ford Connect wedi' addasu)
Yn gallu cludo gyrrwr, teithiwr mewn cadair olwyn a thri theithiwr ychwanegol.
I'w yrru gan aelod o'r teulu, ffrind neu ofalwr dan yswiriant Bws Barbara (rhaid cofrestru)

Trefniant tâl: Ail lenwi'r tanc a chyfraniad i'r elusen (Elusen Gofrestredig 257507)

Pryd rhaid gwneud trefniant: Deuddydd ymlaen llaw neu mewn argyfwng gall fod yn bosibl mewn 24 awr

Nosweithiau a phen wythnosau: Yn bosibl gyda gyrrwr eich hunain ond yn llai hyblyg pan fo gofyn am yrrwr gwirfoddol

Gwasanaeth ychwanegol: Gallwn drefnu gyrrwr gwirfoddol ar gyfer siwrneiau byr ond mae hyn yn ddibynnol ar argaeledd gyrrwyr gwirfoddol

Y Groes Goch



Prif Gyswilt: Corinna Ann Roberts

Rhif Ffôn: 01248 351103

Ebost: corinnaanntoberts@redcross.org.uk

Dull cyfeirio a ffafriwyd: Ffôn

Oriau agored: 9yb – 3yh Dydd Llun i Ddydd Gwener

Lleoliadau gwasanaeth (trefi a phentrefi): Yr ynys gyfan

Defnyddwyr cymwys (isafswm oed, cadair olwyn, dementia ayyb.): Hebrwng y rheini a all ddim defnyddio trafndiaeth gyhoeddus oherwydd oedran neu anabledd.

Mathau o gerbydau: Cerbydau gwirfoddolwyr a cherbydau sydd yn cludo cadair olwyn.

Polisi Codi Tâl: Pris ar gyfer pob siwrne yn ddibynnol ar bellter ac amser segur. Cysylltwch am amcan gost eich siwrne benodol.

Lleiafswm o rybudd sydd ei angen cyn y siwrne: 24 awr

Siwrne noswaith a/neu benwythnos: Oes

Gwasanaethau ychwanegol: Hebrwng drwy gydol y daith.

Unrhyw wybodaeth eraill: Dim



Cludiant Cymunedol Môn / Môn Community Transport

Prif Gyswllt: Arfon Owen

Rhif Ffôn Prif Gyswllt: 01248 752280

Ebost Prif Gyswllt: Arfonowen@ynysmon.org.uk

Rhif Ffôn Ail Gyswllt: 01248 752219

Ebost Ail Gyswllt:

Dull cyfeirio a ffafriwyd: Ffôn

Oriau agor/swyddfa: 7yb – 6yh

Lleoliadau gwasanaeth (trefi a phentrefi): Yr ynys gyfan

Defnyddwyr cymwys (isafswm oed, cadair olwyn, dementia ayyb.): Angen bod dros 60 oed a methu defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, problemau symudedd / defnyddwyr cadair olwyn.

Math o gerbydau: Bws Mini

Polisi Codi Tâl: Costau fesul milltir ac oriau staff.

Lleiafswm o rybudd sydd ei angen cyn y siwrne: 2 ddiwrnod

Siwrne noswaith a/neu benwythnos: Na

Gwasanaethau ychwanegol:

Unrhyw wybodaeth eraill: Apwyntiadau ysbyty, deintydd, meddyg, banciau, swyddfa bost, angen eu ffitio fewn o gwmpas y teithiau bore a phrynhawniau arferol.



CAR LINC MÔN

Beth ydy 'Car Linc Môn'?

Cynllun cludiant cymunedol cymdeithasol gwirfoddol ar Ynys Môn ydy **Car Linc Môn**. Mae'r gwasanaeth ar gael i bobl sydd heb unrhyw ffordd arall o wneud teithiau hanfodol.

Mae'r cynllun yn bennaf ar gyfer ardaloedd gwledig lle mae gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn brin, ond hefyd ar gyfer pobl sydd ddim yn ddigon ffit i ddefnyddio cludiant cyhoeddus - yn y wlad neu'r dref. Ers sefydlu'r cynllun yn 2001 mae **Car Linc Môn** yn darparu gwasanaeth teithio hanfodol i bobl sydd angen mynd i:

- Apwyntiad ysbyty
- Ymweld â'r meddyg, deintydd, optegydd
- Mynychu Canolfan Gofal Dydd
- Casglu presgripsiwn
- Siopa
- Ymweld â pherthnasau neu ffrindiau sy'n sâl



Pwy sy'n trefnu 'Car Linc Môn'?

Mae'r cynllun yn cael ei redeg o ddydd i ddydd o swyddfa Medrwn Môn yn Llangefni (dydd Llun i ddydd Gwener, 9am-12pm). Bydd aelod o staff Medrwn Môn yn gyfrifol am gymeradwyo pob cais am gludiant, yn trefnu i yrwyr gwirfoddol wneud pob taith, ac yn cynnig arweiniad petai unrhyw anawsterau'n codi.

Sut mae 'Car Linc Môn' yn gweithio?

Pan fydd person sydd angen cludiant ar gyfer taith hanfodol yn cysylltu â Medrwn Môn, bydd aelod o staff yn cofnodi'r manylion, yn cadarnhau bod y daith yn gymwys, ac yn ffonio i gael hyd i yrrwr sy'n gallu gwneud y siwrne. Mae angen o leiaf 3 diwrnod o rybudd, a lle bo modd, trefnir teithiau sy'n cyfuno anghenion nifer o deithwyr. Bydd amcan bris, a'r dull o dalu wedi cael eu trefnu cyn y siwrne, ynghyd ag unrhyw drefniadau eraill e.e. amser dychwelyd, os oes angen hebryngydd, a oes gan y defnyddiwr gwasanaeth fathodyn glas a.y.b.

Bydd pob cais y cael ei asesu yn ôl ei haeddiant. Mae mynediad i'r gwasanaeth fwy nag unwaith yr wythnos yn bosibl, ond dim ond yn unol â disgrisiwn Medrwn Môn.

Pwy sy'n cael defnyddio 'Car Linc Môn'?

Mae **Car Linc Môn** yn wasanaeth sydd ar gael i drigolion Ynys Môn (50+ oed) ar gyfer gwneud teithiau hanfodol ar adegau lle nad oes cludiant addas arall ar gael. Cyfrifoldeb Medrwn Môn ydy penderfynu os ydy taith benodol yn gymwys, ond mae'r rhestr wirio isod yn rhoi arweiniad o ran y meini prawf i gael defnyddio'r gwasanaeth:-

- Oes gan y teithiwr fynediad i unrhyw gludiant preifat e.e. car ei hun?
- Oes unrhyw gludiant cyhoeddus y gallai'r teithiwr ei ddefnyddio?
- Ydy hi'n bosib i'r teithiwr newid amser y daith er mwyn gallu defnyddio ffordd arall o deithio?
- Ydy hi'n bosib i'r teithiwr ddefnyddio Gwasanaeth Car yr Ambiwlans?
- Ydy hi'n rhesymol i'r teithiwr logi tacsï ar gyfer y daith?
- Ydy hi'n rhesymol i'r teithiwr osgoi gwneud y daith yn gyfan gwbl?

Os mai'r ateb i unrhyw gwestiwn uchod ydy **OES** neu **YDY** – yna **Ni** fyddai'r daith fel arfer yn un ddilys.

Gyrwyr Gwirfoddol

Medrwn Môn sydd yn recriwtio gyrwyr gwirfoddol ar gyfer **Car Linc Môn** drwy hysysebu yn y wasg, gosod posteri mewn mannau cyhoeddus, a holi ar lafar. Mae'r cynllun yn edrych am wirfoddolwyr newydd yn gyson er mwyn cyflenwi'r gwasanaeth i'r holl ddefnyddwyr ar draws Ynys Môn.

Cyn taith gyntaf y gwirfoddolwr, bydd Medrwn Môn yn trefnu gwiriad 'DBS' i bob gyrrwr ac yn gofyn fod gan bob gyrrwr y canlynol:

- Trwydded Yrru Ddilys
- Tystysgrif MOT
- Tystysgrif yswiriant cynhwysfawr



Cost y Gwasanaeth

Cost pob taith hefo **Car Linc Môn** ydy £4.50 am y 6 milltir gyntaf, ac yna 55c y filltir wedyn. Er enghraifft, byddai taith o Langefni i Ysbyty Gwynedd ac yn ôl (taith o 19 milltir) yn costio £11.65 (sef £4.50 am y 6 milltir gyntaf a £7.15 am y 13 filltir arall). Fe fydd y gyrrwr yn derbyn 50c y filltir am bob siwrne. Swyddog o Medrwn Môn sydd yn gweinyddu'r holl daliadau.

Rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018 fe wnaeth Car Linc Môn drefnu 540 siwrne – cyfanswm o 12,482 milltir

CAR LINC MÔN –  **01248 725745**
linc@medrwnmon.org



CONTACT THE ELDERLY

CYSWLLT Â'R HENOED

Mae Cyswllt â'r Henoed yn rhedeg nifer o grwpiau ar Ynys Môn. Rydym yn cynnal partïon te unwaith y mis ar ddydd Sul a gallwn ddarparu gywyr gwirfoddol neu fws gwirfoddol. Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â Kate Housley, Swyddog Cefnogi, Cyswllt â'r Henoed Cymru, ar 029 2002 6211.



www.canolfanbeaumaris.org.uk

Leisure / Entertainment / Arts / Sports

Rating Row, Beaumaris, Isle of Anglesey LL58 8AL / Tel: 01248 811200

Registered Charity No 1154384



Bws Mini Canolfan Beaumaris a'r Cylch

Mae gan Ganolfan Beaumaris fws mini Ward Seiriol sy'n gyfyngedig i'r defnydd gan y rhai sy'n byw yn Ward Seiriol ac mae'n dibynnu ar roddion gan y defnyddwyr i gynnal a gwasanaethu'r cerbyd.

Mae'r gwasanaeth yn dibynnu ar argaeledd gyrwyr Gwirfoddol.

Telerau ac Amodau'r Bws Mini:

Mae'r bws mini yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio ar gyfer teithiau o fewn Ward Seiriol. Byddai rhodd yn cael ei werthfawrogi. Yr awgrym yw £ 2.00 y pen neu fwy.

I'r rhai sy'n teithio y tu allan i Ward Seiriol ond oddi fewn Gogledd Orllewin Cymru, awgrymir rhodd o £30.00 a rhaid iddynt ail-lenwi'r disel yn gyfartal â'r hyn a ddefnyddiwyd. I'r rhai sy'n teithio y tu allan i Ogledd Orllewin Cymru awgrymir rhodd o £80 i £100 a rhaid iddynt ail-lenwi'r disel.

Mae hyn i helpu i dalu am y costau cynnal a chadw.

Trwydded Gyrru a Thystysgrif MIDAS:

Rhaid i bob Gyrrwr ddarparu copi o'u Trwydded Yrru a Thystysgrif MIDAS i'r ganolfan i bwrpas yswiriant.

Dogfennau:

Caiff copïau o'r manylion *Breakdown and Recovery*, yr Yswiriant, Dogfen Cofrestru Cerbyd a Thystysgrif M.O.T. eu cadw yn y *glove compartment*.

Approved Driver's and Insurance Cover:

Mae Gyrrwr yn dod o dan Yswiriwr Bws Mini Canolfan Beaumaris; ERS.

Bydd gyrwyr nad ydynt wedi mynychu cwrs hyfforddi gyrwyr MIDAS ac sydd dan 70 oed angen DI ar eu trwydded a byddant yn gallu gyrru dan Yswiriwr Bws Mini Cynghrair Seiriol; Yswiriant ERS.

Bydd gyrwyr dros 70oed angen cod 120 ar eu trwydded neu mae'n rhaid iddynt lenwi ffurflen D2 (Cais am drwydded yrru Lori, Bws neu Fws Mini) a hefyd i gael eu meddyg i gwblhau D4 (Adroddiad Arholiad Meddygol). Yna mae'n rhaid anfon y D2 a D4 i'r DVLA i alluogi adnewyddu'r drwydded yrru.

Gwiriadau Diogelwch Cerbydau:

Y Gyrrwr fydd yn gyfrifol am wiriadau diogelwch cerbydau. Rhaid nodi unrhyw ddiffygion a'u dwyn i sylw Staff Canolfan Beaumaris.

Llyfr Log:

Bydd llyfr log yn cael ei gadw yn y cerbyd i gofnodi manylion y daith fel; y milltiroedd a'r defnydd o danwydd cyn ac ar ôl y daith.

Allweddi:

Bydd yr allweddi'n cael eu cadw yng Nghanolfan Beaumaris. **Gwneir** trefniadau arbennig i gasglu a dychwelyd yr allweddi pan fydd y Ganolfan ar gau.

- i. Mae'r bws mini ar gael ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol nad ydynt yn gwneud elw o fewn Ward Seiriol.
- ii. Mae'r bws mini yn cael ei weithredu o dan **Reoliadau Bysiau Mini ac rhai eraill o dan Rheoliadau Bysiau Adran 19 Deddfwriaeth 1987**.
- iii. Ni ellir cyflogi'r bws mini ar gyfer gweithgareddau sy'n gwneud elw.
- iv. Mae archebu'r bws mini yn ddarostyngedig i argaeledd.
- v. Dim ond gyrrwyr cymeradwy y gall yrru'r bws mini.
- vi. Rhaid cwblhau pob rhan o'r llyfr log bws mini ar gyfer pob taith.
- vii. Rhaid codi a dychwelyd y Bws Mini ar adegau a lleoliadau penodol.
- viii. Rhaid ail-lenwi'r bws mini gyda thanwydd cyn dychwelyd.
- ix. Rhaid dychwelyd y bws mini mewn cyflwr glân a thaclus.
- x. Rhaid hysbysu staff Canolfan Biwmares o unrhyw ddifrod. 01248 811 200.
- xi. Mae angen rhybudd 24 awr ar gyfer canslo.
- xii. Gadewir pob eiddo / offer personol yn y bws mini ar risg y perchennog.

Gellir archebu drwy gysylltu â Chanolfan Beaumaris ar 01248 811 200 neu e-bostiwch: enquiries@canolfanbeaumaris.org.uk

Cysylltiadau Defnyddiol Eraill



Community Transport Association Online – www.ctonline.org.uk

Darganfyddwch lle mae darparwyr trafndiaeth wedi ei leoli, pa wasanaethau a gynigwyd a lle i'w darganfod. Rhoddir linciau uniongyrchol i wefan y darparwyr hefyd.



Traveline Cymru – www.traveline-cymru.info

Traveline Cymru yw gwasanaeth gwybodaeth trafndiaeth cyhoeddus yng Nghymru a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhoddir gwybodaeth teithio ar gyfer bysiau, trenau, awyr a llongau.



Cyngor Sir Ynys Môn - <http://www.anglesey.gov.uk/transport-and-roads/>

Gwefan Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnig gwybodaeth leol ar drafndiaeth gyhoeddus, rhannu ceir a mwy.